# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Hydref 2017

Amser: 09.02 - 12.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4423

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>David Meaden, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Chris Vinestock, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Dr Edward Jones, Prifysgol Bangor<br>Dr Helen Rogers, Prifysgol Bangor<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Dyfed Alsop, Awdurdod Cyllid Cymru |

| | |
|---|---|
| | Julian Revell, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Nodwyd y papur.

### 2.1 PTN1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Adroddiad ar Alldro 2016-17 - 30 Medi 2017

## 3 Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: 2018-19 Sesiwn dystiolaeth

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Nick Bennett, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu; a David Meaden, Cyfrifydd Ariannol ar Amcangyfrifon Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2018-19.

3.2 Cytunodd yr Ombwdsmon i ddarparu rhagor o fanylion ar gyfran y cwynion a gadarnhawyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 5, 8 a 9

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: 2018-19 Ystyried y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 Sesiwn dystiolaeth 2 (Prifysgol Bangor)

6.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Edward Jones a Dr Helen Rogers o Brifysgol Bangor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19.

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 Sesiwn dystiolaeth 3 (Trysorlys Cymru)

7.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Andrew Jeffreys, Trysorlys Cymru; Dyfed Alsop, Prif Weithredwr, Awdurdod Refeniw Cymru; a Julian Revell, Pennaeth Dadansoddi Cyllidol, Trysorlys Cymru ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19.

7.2 Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymrwymiad a wnaed yn ystod Cyfnod 2 y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), i lunio map diffiniol y Gofrestrfa Tir o ffin Cymru.

## 8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 Ystyried y dystiolaeth

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ystyried y dystiolaeth

9.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod sesiwn yr wythnos diwethaf ar gyllideb ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018-19.